



Pembrokeshire
SIR BENFRO

Swyddog Cyllid rhan amser - £22,000-£25,000 y flwyddyn pro rata + BUDDION

Rydym yn chwilio am Swyddog Cyllid profiadol rhan amser i ymuno â'n tîm a mwynhau'r buddion gwych a gynigir gennym fel cyflogwr.

Croeso Sir Benfro yw'r Sefydliad Rheoli Cyrchfan Swyddogol ar gyfer Sir Benfro. Rydym yn bartneriaeth a arweinir gan fusnesau sy'n dod â'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector ynghyd i gydweithio i sicrhau dyfodol cynaliadwy i dwristiaeth yn Sir Benfro.

Mae hon yn swydd gyffrous, lle gall deiliad y swydd arwain ar reoli cyfrifon y cwmni, rheoli eu cyfrifoldebau eu hunain, a datblygu'r rôl ymhellach i gefnogi tîm Croeso Sir Benfro.

Math o Swydd: Swydd barhaol rhan-amser (17 awr yr wythnos ar gyfartaledd)
Cyflog: £22,000-£25,000 pro rata y flwyddyn, yn dibynnu ar brofiad

Buddiannau:

- Oriau blynyddol
- Oriau gwaith amrywiol / hyblyg drwy gytundeb
- Gweithio hybrid / gweithio gartref ar gael drwy gytundeb
- 6.6 wythnos o wyliau (pro rata) gan gynnwys gwyliau banc
- Pensiwn – cyfraniadau hael cyflogwr o 9%
- Swyddfeydd ar y glannau a pharcio di-dâl

Mae o leiaf tair blynedd o brofiad cadw cyfrifon/cyfrifyddu perthnasol yn hanfodol ar gyfer y swydd hon, ac yn ddelfrydol cymhwyster proffesiynol cydnabyddedig (AAT lefel 4 neu'r cyfatebol). Hefyd mae profiad/cymwysterau cyflogres diweddar yn ddymunol ar gyfer y swydd hon.

Bydd angen i chi roi llawer o sylw i fanylion a bod yn drefnus iawn.

Rhaid i chi ddangos y gallu i weithio'n ddigymell a gweithio gyda chyn lleied o oruchwyliaeth â phosibl.

RHAID i ymgeiswyr lenwi'r ffurflen gais atodedig, ond mae croeso iddynt hefyd gyflwyno eu CV a llythyr eglurhaol. I fod ar y rhestr fer am gyfweiliad, **RHAID i ymgeiswyr brofi eu bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y swydd**, yn unol â'r disgrifiad swydd a'r fanyleb person sydd ynghlwm.

DYDDIAD CAU AR GYFER CEISIADAU: Dydd Llun 17 Hydref 2022

Cynhelir cyfweiliadau yn ystod yr wythnos yn dechrau 24 Hydref 2022.

I gael rhagor o wybodaeth a manylion am sut i wneud cais

<https://www.visitpembrokeshire.com/industry/swyddi-gwag>